Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Seren Day Nursery**

**Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant**
**Campws Llanbedr Pont Steffan**
**Stryd y Coleg**
**Llanbedr Pont Steffan**
**SA48 7ED**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Seren Day Nursery

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Seren Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Hydref 2021 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Mae ganddynt lais cryf ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u cyfoedion a'r staff. Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn bwrw ati i ddechrau eu chwarae eu hunain. Maent yn dilyn eu diddordebau a'u syniadau eu hunain. Mae'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth da o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r staff yn gweithredu llawer o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Fodd bynnag, ceir argymhellion mewn perthynas â chofnodion, dealltwriaeth y staff o weithdrefnau diogelu a gweithredu'r polisi newid cewynnau. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gynnes, yn garedig ac yn dangos caredigrwydd. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau, eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain mewn amgylchedd chwarae rhydd.

Mae'r safle yn groesawgar ac yn hygyrch. Mae gan yr arweinwyr fesurau ac asesiadau risg addas ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran lles y plant. Mae dewis da o adnoddau ac ardaloedd o ansawdd i wella profiadau chwarae a dysgu'r plant dan do ac yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nodwyd maes i'w wella o ran sicrhau bod yr holl beryglon posibl wedi'u dileu cymaint â phosibl. Ceir argymhellion mewn perthynas â'r dystysgrif ar gyfer cynnal a chadw'r system wresogi a phreifatrwydd ac urddas.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff gwiriadau addasrwydd staff bob amser eu cynnal, nid yw'r cofnodion bob amser yn gywir, ac nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) bob amser yn cael gwybod am newidiadau sylweddol i'r lleoliad. Mae gan yr arweinwyr ddulliau hunanwerthuso effeithiol ar waith ac maent yn llunio cynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Caiff y cymarebau staff i blant eu bodloni. Ceir ethos cadarnhaol rhwng y staff, ac maent yn teimlo bod yr arweinwyr yn eu cefnogi'n llawn. Mae'r partneriaethau yn effeithiol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn hyderus wrth wneud eu dewisiadau eu hunain am beth y maent am ei wneud a beth yr hoffent chwarae ag ef. Er enghraifft, roeddent yn hapus wrth ddewis chwarae â'r tywod a'r dŵr ac yn yr ardaloedd chwarae rôl. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, pan fyddant am gael mwy o fwyd yn ystod amser cinio, maent yn dweud hynny wrth y staff ac mae'r staff yn ymateb. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn dewis ble yr hoffent eistedd yn ystod amseroedd bwyd ac yn penderfynu pryd y byddant yn barod i ymuno â'r lleill i gael bwyd.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Maent yn cael budd o staff cyson sy'n eu hadnabod yn dda, ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Er enghraifft, maent yn mynd at y staff mewn ffordd naturiol i gael maldod a chysur. Mae'r plant yn falch o'u cyflawniadau. Maent yn gwenu pan fydd y staff yn eu canmol am fwyta eu mefus. Mae'r plant yn dangos balchder wrth ddathlu eu gwaith crefft, gan ddangos eu masgiau i'r staff a dweud *"I've done it!!"*

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn effeithiol gan gymryd eu tro wrth reidio'r beiciau a rhannu adnoddau yn y gweithgaredd chwarae dŵr. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau gan y staff. Er enghraifft, maent yn gwrando pan fydd y staff yn eu hannog i beidio â dringo'r bwrdd er mwyn gweld aelodau eraill o'r staff mewn ardaloedd eraill.

Mae'r plant wedi'u cymell ac yn bwrw ati i ddechrau eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Maent yn dilyn eu diddordebau a'u syniadau eu hunain. Er enghraifft, maent yn helpu eu hunain i fwcedi ac adnoddau o ardal y gegin fwd ac yn eu symud i ardaloedd eraill er mwyn archwilio adnoddau naturiol o dan y goeden yn yr ardal ddarllen dawel y tu allan. Mae'r plant yn dangos creadigrwydd a mwynhad wrth chwarae. Maent yn defnyddio masgiau ac adnoddau wrth chwarae rôl, gan esgus bod yn anifeiliaid gwahanol. Er enghraifft, dywedodd un plentyn, "*Tiger ydw i, ma 'muscles' da fi!*" Mae'r plant yn dangos sgiliau canolbwyntio da o ystyried eu hoedran a'u camau datblygu. Roeddent yn gwrando ar stori a oedd yn cael ei darllen gan aelod o'r staff ac yn ymateb yn dda i'r cwestiynau a ofynnwyd am yr anifeiliaid.

Mae'r plant yn manteisio ar gyfleoedd amrywiol i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus yn unol â'u hoedran a'u camau datblygiad. Maent yn reidio beiciau cydbwyso, yn cicio pêl ac yn ei derbyn yn ôl ac yn defnyddio adnoddau yn hyderus, sy'n hyrwyddo sgiliau echddygol manwl. O ganlyniad, maent wedi datblygu sgiliau corfforol da. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'u trefn o ddydd i ddydd. Maent yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn bwyta eu prydau gan ddefnyddio cyllell a fforc. Mae'r plant yn defnyddio llwyau er mwyn helpu eu hunain i fwy o ffrwythau a bwydydd o'u dewis ac yn helpu eu hunain i'w boteli dŵr personol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn diwallu eu hanghenion personol yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn cadw'r plant yn gymharol ddiogel ac iach. Maent yn deall ac yn gweithredu llawer o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth dda o fwydydd iach a maethlon i'r plant, ac maent yn sicrhau bod dŵr ar gael i'r plant drwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Yn ystod amseroedd bwyd, mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo'n effeithiol ac maent yn diheintio'r byrddau yn rheolaidd. Mae'r staff yn sicrhau bod alergeddau, anoddefiadau ac anghenion deietegol eraill y plant yn cael eu cydnabod a'u hystyried. Mae gan sawl aelod o'r staff ddealltwriaeth resymol o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Er enghraifft, dywedodd sawl aelod o'r staff eu bod yn gwbl ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â senarios posibl yn ymwneud â lles plant. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n effeithiol. Mae'r staff yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau a damweiniau sy'n ymwneud â'r plant, ac mae'r staff a'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion hyn. Fodd bynnag, ni chaiff anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi ar hyn o bryd ac nid yw'r cofnodion meddyginiaeth bob amser yn dangos y dosau blaenorol nac yn cael eu llofnodi gan y rhieni ar hyn o bryd. Mae sawl aelod o'r staff yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau newid cewynnau ar waith. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn rhoi'r polisi newid cewynnau ar waith yn effeithiol. Mae gan lawer o'r staff gymwysterau cymorth cyntaf dilys ac mae nifer digonol o staff i fodloni gofynion cymorth cyntaf pediatrig.

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r plant. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo iaith, fel enwau lliwiau ac anifeiliaid y sw a'r fferm drwy weithgareddau chwarae blêr a chreadigol gan ddefnyddio adnoddau synhwyraidd a naturiol. Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gyfeillgar ac yn dangos caredigrwydd. Er enghraifft, maent yn cael sgyrsiau hyfryd â'r plant ac yn canu gyda nhw wrth newid eu cewynnau, gan roi profiad cadarnhaol i'r plant o ganlyniad i hynny. Mae'r staff yn hyrwyddo hunan-barch ac ymdeimlad o gyflawniad y plant. Maent yn dathlu drwy weiddi hwrê pan fydd y plant yn llwyddo i gicio'r bêl a'i derbyn yn ôl wrth chwarae pêl-droed gydag aelod o'r staff. Mae'r staff yn dangos empathi tuag at y plant. Gwnaethant ymateb yn garedig pan syrthiodd powlen o hufen iâ un o'r plant ar y llawr, gan ddweud, *‘don’t worry, shall I get you another one?’* Mae'r staff yn canmol y plant am eu cyflawniadau. Er enghraifft, maent yn eu canmol am rannu ac am fwyta eu tost yn dda. Os na fydd y plant am gael y bwyd a gynigir, rhoddir dewis amgen iddynt, fel eu hoff rawnfwyd. Mae'r staff yn fodelau rôl da. Maent yn annog y plant mewn ffordd gyfeillgar a charedig i ddweud ‘*please*’ a ‘*thank you*’ yn ystod amser bwyd.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, ac o ganlyniad, gallant sicrhau eu bod yn cefnogi'r plant i ddilyn eu diddordebau, eu dewisiadau a'u penderfyniadau. Gallant hefyd sicrhau bod adnoddau sydd o ddiddordeb i'r plant ar gael a'u bod yn diwallu eu hanghenion. Mae'r staff yn diwallu anghenion ieithyddol y plant ac yn sicrhau y caiff asesiadau eu cwblhau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu camau datblygiadol nesaf. Mae gan y

staff ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth i'r plant os oes angen. Mae'r plant yn cael gofal gan staff sy'n gallu diwallu eu hanghenion o ran y Gymraeg, a gaiff ei hyrwyddo drwy'r lleoliad. Maent yn canu caneuon Cymraeg ac yn darllen llyfrau Cymraeg i'r plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i brofi diwylliannau gwahanol ac amrywiaeth, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn ogystal â dathlu diwylliant Cymru.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae'r arweinwyr wedi rhoi mesurau a pholisïau digonol ar waith mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Mae asesiadau risg cyffredinol manwl ar waith ar gyfer y safle, teithiau allan a gweithgareddau a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr a'r staff bob amser yn nodi risgiau posibl ac ni chaiff peryglon amgylcheddol bob amser eu nodi a'u dileu. Er enghraifft, roedd adnoddau chwarae wedi torri a sylweddau peryglus yn y lleoliad, nad oeddent bob amser yn cael eu gwaredu'n briodol neu'n cael eu storio mewn mannau allan o gyrraedd y plant. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Caiff asesiad risg tân ei gynnal, ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a chaiff gwiriadau cynnal a chadw eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif ar gyfer y system wresogi ar gael. Caiff mynedfa'r feithrinfa ei chloi, sy'n sicrhau na all aelodau o'r cyhoedd ddod i mewn i'r lleoliad heb awdurdod, ac mae'r ardal awyr agored yn ddiogel. Mae'r staff yn sicrhau bod ymwelwyr yn cofnodi eu presenoldeb yn y llyfr ymwelwyr.

Mae'r feithrinfa yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae ardaloedd newid, toiledau, cymhorthion toiled a sebon hylif ar gael i'r plant. Mae'r toiledau i'r plant hŷn mewn ciwbiclau sy'n cynnig preifatrwydd ac urddas effeithiol iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu cynnal pan fyddant yn defnyddio'r poti. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ardaloedd lle gall y plant ymlacio a chysgu yn unol â'u dewisiadau, a chaiff y dillad gwely eu newid ar gyfer pob plentyn. Mae'r ardal dan do yn fawr, ac mae'r arweinwyr yn trefnu'r ardaloedd yn effeithiol er mwyn cefnogi a gwella sgiliau annibyniaeth y plant a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Ceir byrddau a chadeiriau lefel isel sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddod at ei gilydd i gymdeithasu, bwyta a chymryd rhan mewn gweithgareddau pen bwrdd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd i ddathlu gwaith celf a chrefft y plant. Cânt eu gosod fel rhan o'r arddangosfa ar y thema ‘O dan y môr’. Maent yn sicrhau bod labeli Cymraeg ar adnoddau ac yn defnyddio geirfa Cymraeg ar gyfer y tywydd, llythrennau, rhifau, dyddiau'r wythnos a'r misoedd.

Mae'r arweinwyr wedi gwella'r ardaloedd dan do yn ddiweddar. Cafodd llawr newydd ei osod, a phrynwyd dodrefn ac adnoddau newydd ar gyfer chwarae rôl. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau a theganau ar gael i wella dysgu'r plant drwy chwarae. Maent yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau sydd o ddiddordeb i'r plant. Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau sy'n hyrwyddo sgiliau creadigol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau iaith y plant, yn ogystal â'u gallu i archwilio a datblygu eu sgiliau meddwl drwy chwarae. Mae'r adnoddau yn cynnwys crefftau, ardal chwarae rôl, llyfrau dwyieithog ac adnoddau sy'n hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth, teganau chwarae byd bach a theganau cerddorol, chwarae meddal, posau ac adnoddau mathemategol. Maent yn sicrhau bod y brif ardal awyr agored yn cael ei defnyddio'n gyson a'i bod yn ardal addas i blant o bob oedran ddatblygu eu sgiliau corfforol a'u sgiliau cyfathrebu a'u dewisiadau

chwarae. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys ardal ddarllen dan gysgod naturiol, cegin fwd, adnoddau chwarae corfforol, adnoddau garddio, dringo a chydbwyso. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn gwella gwybodaeth y plant am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth a'u dealltwriaeth ohonynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gwael

Mae'r arweinwyr wedi llunio datganiad o ddiben sy'n bodloni'r rheoliadau ac yn adlewyrchu'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg ar hyn o bryd. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r arweinwyr wedi gwneud diwygiadau i'r polisïau diogelu a rheoli ymddygiad yn ystod yr arolygiad er mwyn adlewyrchu'r canllawiau presennol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cofnodion gofynnol ar waith. Maent yn sicrhau bod contractau a chaniatadau ar gael ar gyfer y plant, ac maent yn cadw cofnod presenoldeb ar gyfer y staff a'r plant. Fodd bynnag, ni chaiff amseroedd egwyl y staff bob amser eu cofnodi ac o ganlyniad, nid oes archwiliad clir o'r unigolion sy'n gofalu am y plant yn ystod yr amseroedd hynny. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae polisïau yswiriant ar waith ac maent yn gyfredol. Mae trefniadau ar waith i ymdrin â chwynion a phryderon pe byddent yn codi.

Mae gan yr arweinwyr dechnegau hunanwerthuso effeithiol ar waith ac maent yn llunio cynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Maent yn cynnal adolygiad o ansawdd y gofal sy'n adlewyrchu barn y rhieni, y staff a'r plant. Maent yn cynnal gwerthusiad manwl o'r gwelliannau a wnaed ac yn creu targedau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau addasrwydd staff a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y rhan fwyaf o aelodau o staff cyn iddynt ddechrau gweithio gyda'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi cwblhau'r gwiriadau addasrwydd a'r gwiriadau datgelu a gwahardd gofynnol ar gyfer yr aelodau mwyaf newydd o staff sy'n gweithio gyda'r plant. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cyflogi nifer digonol o staff cymwysedig; ac mae'r cymarebau rhwng y staff a'r plant yn cael eu cynnal bob amser. Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith ar gyfer amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gofynnol er mwyn bodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol eto. Mae ethos cadarnhaol yn y lleoliad, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol ac i ddatblygu syniadau newydd i wella profiadau a chanlyniadau'r plant. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau eu cynnal er mwyn gwella datblygiad proffesiynol yr arweinwyr a'r staff. Dywedodd y staff wrth AGC eu bod yn hapus iawn a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr. Caiff cyfarfodydd misol, diwrnodau datblygu tîm a digwyddiadau cymdeithasol eu cynnal. O ganlyniad, mae ethos gwaith da a chydberthnasau cadarnhaol rhwng y staff a'r tîm rheoli yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr wedi cwblhau'r datganiad hunanasesu gwasanaeth blynyddol ac wedi rhoi gwybod i ni am newidiadau i'r lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r staff. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r partneriaethau yn effeithiol. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol er mwyn cael cymorth o ran anghenion dysgu

ychwanegol. Mae'r arweinwyr a'r staff yn sgwrsio â'r rhieni am brofiad eu plant yn y lleoliad pan fyddant yn dod i'w casglu. Maent yn defnyddio ap webform er mwyn rhoi gwybod i'r rhieni am arferion bwyta, anghenion toiled, gwybodaeth newid cewynnau a gwybodaeth am weithgareddau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r gerddi lleol, y llyfrgell, y ganolfan chwarae meddal a'r parc yn ogystal ag ymweliadau â chartref preswyl lleol i bobl hŷn. Dywedodd y rhieni wrth AGC fod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad, a'u bod yn gwneud cynnydd da. Nodwyd ganddynt ei bod hi'n ddigon hawdd siarad â'r staff a'r tîm rheoli.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gwiriadau addasrwydd a gwiriadau datgelu a gwahardd digonol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda'r plant | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw ddigwyddiadau o bwys neu newidiadau i'r gwasanaeth | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y cofnodion bob amser yn adlewyrchu pob aelod o'r staff sy'n gofalu am y plant ar unrhyw adeg yn gywir. | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r arweinwyr sicrhau y caiff pob perygl posibl ei ddileu cymaint â phosibl | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod y staff yn rhoi'r polisi a'r gweithdrefnau newid cewynnau ar waith yn gyson |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu mewn perthynas â sefyllfaoedd posibl yn ymwneud â lles plant a'u bod yn cael hyfforddiant priodol |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Sicrhau bod yr holl gofnodion meddyginiaeth yn cynnwys y dosau blaenorol a'u bod yn cael eu llofnodi ar ôl rhoi meddyginiaeth |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant iau yn cael eu cynnal yn briodol er mwyn diwallu eu hanghenion o ran mynd i'r toiled |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod gwybodaeth am wiriadau cynnal a chadw ar gyfer y system wresogi ar gael i'w harchwilio. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/10/2024